

City & Guilds City & Guilds Rhaglen Sylfaen mewn Mewnosiad Trydanol (CRAIDD) Lefel 2



Yn gwyno

Ar y cwrs hwn byddwch yn dysgu sgiliau Trydanol sylfaenol yn ogystal â'r wybodaeth i'w hategu. Byddwch yn cael eich goruchwyllo wrth i chi ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau ymarferol a seiliedig ar wybodaeth.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...hoffech chi gael cyflwyniad i Osodiadau Trydanol i arwain at gyrsiau uwch

...rydych chi'n awyddus i ennill sgiliau Trydanol

...rydych chi'n hoffi cwrs ymarferol

Cynnwys y cwrs

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sy'n chwilio am gyflwyniad i'r diwydiant

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Trydanol sy'n dymuno ymgymryd â chwrs a fydd yn llwybr at astudiaethau pellach yn y maes hwn. Bydd yn rhoi cyfle i chi ddysgu rhai sgiliau a gwybodaeth graidd, ynghyd â'r cyfle i symud ymlaen i'n cymhwyster Dilyniant mewn Astudiaethau Trydanol Lefel 2. Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddechrau datblygu eu:

Gwybodaeth, a'r sgiliau a'r dealltwriaeth sydd eu hangen i gynllunio, cyflawni a gwerthuso tasgau ymarferol cyffredin mewn gosodiadau trydanol a phlymio

Dealltwriaeth o'r adeiladau a'r strwythurau sy'n ffurfio'r amgylchedd adeiledig a sut maent yn newid, ac wedi newid, dros amser;

Dealltwriaeth o'r crefftau, y rolau a'r gyrfaedd yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;

Dealltwriaeth o gylch bywyd adeiladau a strwythurau yn yr amgylchedd adeiledig a'r egwyddorion a'r prosesau cysylltiedig ar bob cam;

Dealltwriaeth o gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel sy'n briodol i adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;

Gwybodaeth am dechnolegau sy'n dod i'r amlwg yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;

Sgiliau cyflogadwyedd a'u dealltwriaeth o sut mae'r rhain yn berthnasol i'r gweithle, ac yn bwysig yn y gweithle, yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;

Gwybodaeth am egwyddorion gweithio mewn ffyrdd sy'n gwarchod iechyd, diogelwch, lles a'r amgylchedd, a'r gallu i'w cymhwyso;

Cyflwynir y cwrs drwy sesiynau ymarferol mewn cyfleusterau gweithdy rhagorol a gwersi theori i ategu'r wybodaeth a ddysgwyd yn y sesiynau ymarferol. Byddwch yn cael eich asesu drwy brosiectau ymarferol, profion ysgrifenedig ac ar-lein.

Gofynion Mynediad

O leiaf 4 TGAU gradd D neu uwch gan gynnwys Mathemateg/Rhifedd a Saesneg/Cymraeg iaith Gyntaf neu Cymhwyster Sgiliau Adeiladu lefel 1 a TGAU Mathemateg a Saesneg/Cymraeg iaith 1af gradd D neu uwch.

Gwybodaeth Ychwanegol

Astudio cymhwyster dilyniant Lefel 2 ar y cwrs hwn yng Ngholeg Gwent, cyflogaeth neu brentisiaeth ar Lefel 3.